# TABW



# Cymorth i ddioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Gyflawnwyd gan yr Heddlu

## Beth yw Tabw

Mae Tabw yn darparu cymorth ac eiriolaeth i oroeswyr-dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gyflawnwyd gan yr heddlu sy'n byw neu'n gweithio yn ardaloedd heddluoedd De Cymru neu Gwent. Bydd Tabw hefyd yn cynnig y cymorth hwn i gydweithwyr yr heddlu yn yr ardaloedd heddluoedd hyn. Mae'r gwasanaeth ar agor i bobl o bob rhywedd.

Bydd Tabw yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i annog goroeswyr-dioddefwyr i gysylltu, gan ymateb i'w hanghenion personol a nodwyd ac adnabod eu heriau a sefyllfaoedd unigryw. Nid oes cyfyngiad amser ar y gwasanaeth a bydd yn gweithio ar y cyd â Darparwyr Gwasanaethau lleol i sicrhau ansawdd a chyrhaeddiad y cymorth sydd ar gael.

## Meini Prawf Atgyfeirio

**Mae Tabw yn cynnig gwasanaethau i bobl:**

- O unrhyw rhywedd
- Sydd yn profi neu wedi profi cam-drin a gyflawnwyd gan weithiwr Heddluoedd De Cymru a Gwent
- Sydd wedi'u cyflogi gan Heddluoedd De Cymru neu Gwent
- P'un a ydynt wedi adrodd i'r heddlu ai peidio
- Sydd â phryderon am rywun arall sy'n bodloni'r meini prawf

1. **Derbyn Gwybodaeth neu Ddatgeliad**
2. **Rhoddwyd cydsyniad i drafod â Tabw**
3. **E-bostio tabw@valedas.org gan roi enw, rhif cyswllt diogel, cydsyniad wedi'i dderbyn**
4. **Neu e-bostiwch i drefnu galwad i drafod opsiynau**

Darganfod mwy:


Vale DOMESTIC ABUSE SERVICES GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

**Dirprwy Brif Weithredwr - Gweithrediadau**
Lisa Ware

TABW

**IPPVAs**
Beth Gill & Deb Stolenzburg

CYMORTH I FENYWOD CYFANNOL WOMEN'S AID

**E-bost: tabw@valedas.org** **Ffôn: 01446 744755**